EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

HYDREF 2024

## GAIR GAN Y GWEINIDOG

### ESEIA 43 (Adnodau 1,2, 4 a 5)

1 Nawr, dyma mae'r ARGLWYDD yn ei ddweud –
yr un wnaeth dy greu di, Jacob, a rhoi siâp i ti, Israel:
"Paid bod ag ofn! Dw i wedi dy ollwng di'n rhydd!
Dw i wedi dy alw wrth dy enw! Fi piau ti!

2 Pan fyddi di'n mynd drwy lifogydd, bydda i gyda ti;
neu drwy afonydd, fyddan nhw ddim yn dy gario di i ffwrdd.
Wrth i ti gerdded drwy dân, fyddi di'n cael dim niwed;
fydd y fflamau ddim yn dy losgi di.

4 Dw i'n dy drysori di ac yn dy garu di,
achos ti'n werthfawr yn fy ngolwg i.
Dw i'n barod i roi'r ddynoliaeth yn gyfnewid amdanat ti,
a'r bobloedd yn dy le di.

5 Paid bod ag ofn, achos dw i gyda ti.

## CÂN I GODI CALON




Y Sul o'r blaen, roeddwn yn pregethu yn Bethania, y Felinheli gan wybod bod 'na gefnogwyr pêl droed brwd ymhlith y gynulleidfa, yn ferched a dynion. Nid yn unig hynny, ond roeddwn i'n reit siŵr bod nifer ohonyn nhw yn gefnogwyr Lerpwl, clwb sy'n morio canu'r anthem – ***"You'll never walk alone"***. Mae'r gân yn un bositif a dyrchafol a chaiff ei chanu o flaen pob gêm yn Anfield. Yn wreiddiol, ysgrifennwyd y gân gan Rogers a Hammerstein ar gyfer y Sioe Gerdd ***Carousel*** a ryddhawyd yn 1965 a thros y blynyddoedd, fe'i recordiwyd gan nifer o artistiaid blaenllaw gan gynnwys Elvis ei hun. Ond recordiad Gerry and the Pacemakers, gyda'u cysylltiadau Glannau Mersi roddwyd yn llaw Bill Shankley, hyfforddwr y Cochion yn 1960, yn ôl y chwedl, a thros y blynyddoedd fe dyfodd yn anthem iddynt.

Er mai cân codi calon yw hi, mae llawer yn ei chysylltu gyda'r ddamwain erchyll yn stadiwm Hillsborough, lle'r oedd Lerpwl a Nottingham Forest yn chwarae ei gilydd yn rownd derfynol Cwpan yr FA yn 1989 pan laddwyd 97 o bobl ac anafwyd 766 arall. Er mai cân arall, **"Ferry Cross the Mersey"** ryddhawyd i godi arian i deuluoedd y dioddefwyr, **"You'll Never Walk Alone"** fu'n gynhaliaeth i'r teuluoedd, y Clwb a'r cefnogwyr drwy'r blynyddoedd hir o ymgyrchu i gael ymchwiliad llawn i'r digwyddiad. Côr Orpheus Treforus, gyda'r unawdydd, Anthony Stuart Lloyd sy'n perfformio'r fersiwn Gymraeg ohoni (*i'r rhai ohonoch sy'n hoffi pori ar y We*) sy'n dwyn y teitl **"Ni Cherddi'n Unig Fyth."**

*Dwy'r corwynt a'u ru, dal i fynd ymlaen*
*a phaid ofni'r nos ar bob tu.*
*Cyn bo hir fe gei weld awyr las ar daen*
*a daw cân hedydd bach oddi fry.*
*Ymlaen drwy y gwynt, ymlaen drwy y glaw*
*er pob storm a gofid chwyth.*
*Ymlaen, ymlaen â gobaith yn gân*
*ac ni cherddi'n unig, byth,*
*ni cherddi'n unig, byth.*

(Cyfieithiad Anad)

## CWMNI AR Y DAITH

Cân i godi calon sydd gan Eseia hefyd wrth siarad â chenedl oedd yn aml yn cefnu ar Dduw, wedi profi caethiwed ac wedi dioddef. Ganrifoedd yn ddiweddarach, mae'r un geiriau yma oddi wrth Dduw yn siarad gyda phawb sy'n mynd drwy brofiadau anodd bywyd. "Fi sy biau ti!, fyddi di byth ar ben dy hun,  mi fydda i gyda thi drwy ddŵr a thân – wna i fyth dy adael di. Rwyt ti'n werthfawr i mi a dwi'n dy garu di!". Wrth gwrs, dydy'r rhai mae'r Arglwydd yn eu caru ddim yn cael osgoi profiadau anodd, ond mae gwybod bod Duw gyda ni yn trawsnewid y profiad, yn gwneud byd o wahaniaeth. Ond mae'r hyn y mae cefnogwyr Lerpwl wedi ei ddeall yn wir hefyd. Mae gwybod bod 'na bobl eraill o'n hamgylch ni pan fyddwn ni'n mynd drwy stormydd bywyd yn gwneud byd o wahaniaeth hefyd. Mae gwybod bod teulu, ffrindiau, cymdogion, neu deulu'r eglwys y tu cefn i ni yn golygu nad ydyn ni'n gorfod teimlo wedi'n hynysu gan y profiadau anodd.

## MACMILLAN

Yn ystod Mis Medi, mewn nifer fawr o neuaddau a chanolfannau, mae gwirfoddolwyr yn trefnu boreau coffi i godi arian i elusen Macmillan. Mae nifer o'r gwirfoddolwyr rheiny yn bobl y mae eu bywydau, neu fywydau aelodau o'u teuluoedd wedi eu cyffwrdd gan gancr. Mae Macmillan yn medru darparu ystod eang o gymorth a chefnogaeth i bobl sy'n mynd ar daith hir drwy driniaethau a chyfnodau anodd o aros am ganlyniadau:

1. *Cyngor cancr arbenigol*
2. *Lyfrynnau a gwefan gyda gwybodaeth*
3. *Gweithwyr proffesiynol wedi eu hyfforddi'n arbennig*
4. *Llefydd y gall bobl ddod o hyd i gefnogaeth gan gyfoedion*
5. *Cyfleoedd i wirfoddoli.*
6. *Grantiau Macmillan - taliadau i helpu pobl ar incwm isel gyda chostau yn ymwneud â'u canser*
7. *Cyngor ar Fudd-daliadau*

***Diolch i drefnwyr a chefnogwyr y boreau coffi yma, mae Macmillan yn gallu gwneud gwaith pwysig. Er mai'r cleifion a'u teuluoedd sy'n mynd drwy'r profiadau anodd, gall Macmillan wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n gwneud hynny ar eu pennau eu hunain, na fyddant yn cerdded yn unig, byth.***



## OEDFAON A CHYFARFODYDD HYDREF

**Bore Sadwrn, 5 Hydref, 10am tan 12pm** Bore Coffi Masnach Deg
**Bore Sul, 6 Hydref** Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog
**Pnawn Iau, 10 Hydref, 3pm tan 4pm** Cyfarfod ‘panad a sgwrs’
**Bore Sul, 13 Hydref** Oedfa Diolchgarwch bob oed dan arweiniad y gweinidog
**Bore Sul, 20 Hydref** Bore Sul, 20 Hydref Oedfa dan arweiniad y Parchg Rhun Murphy
**Bore Sul, 27 Hydref** Oedfa dan arweiniad y gweinidog.

## BLODAU MIS HYDREF

**Diolch i Kath, Meriel, Delyth Murphy, Helen Owen ac Enid Griffiths am ofalu fod blodau ar gyfer oedfaon Mis Awst a Medi.**

### MIS HYDREF

**6 a 13 *Delyth Williams***
**20 a 27 *Elen Lansdown***

**Diolch yn fawr i bawb sydd wedi rhoi eu henw ar gyfer rhoi blodau yn ystod 2024. Fe fydd taflen ar gyfer 2025 ar gael mis nesaf.**

***Diolch Kath a Meriel.***

*cysylltu:* Kath Jones 01248 353313
Meriel 01248 352205
neu *merielparry@gmail.com*





## DIOLCH

Mae ein diolch y mis yma i Ann a Gareth Roberts
am annog amryw i gyfrannu
ac am gydlynu’r deunydd ar gyfer y rhifyn yma
Diolch i bawb a fu’n ufudd i’w cais ac a anfonodd gyfraniad.

### NEGESYDD TACHWEDD

Dylid gyrru eitemau ar gyfer rhifyn **TACHWEDD** y Negesydd at olygydd y rhifyn,
Eleri Lloyd Jones - ffôn 365665 neu e-bost:*eleri.jones30@btinternet.com*
erbyn Hydref 24, fan bellaf
gyda chopi(cc) i’r Negesydd - e-bost: *negesydd@btinternet.com*




## YMGYRCH DILLAD

*Dyma bwt gan aelod o Eglwys Penrallt wedi'r ymgyrch i rannu dillad am ddim i rai mewn angen:*

**"Mi oedd hi'n wledd o ddiwrnod o'r dechrau i'r diwedd. Mi oedd pobl yn ciwio tu allan yn barod i ddod i mewn o tua 09.30! Mi gawsom ni sgwrsiau gwych am yr Iesu yn ogystal â medru gweddio hefo pobl a'u bendithio gyda dillad oeddan nhw ei wir angen. Roedd pobl di-gartref yn eu plith a phobl angen dillad smart ar gyfer gwaith ac yn y blaen."**

***Diolch i bawb wnaeth gefnogi.***






## AWCH AM ANTUR!


Ai'r ffaith i dri o'n hwyrion gael eu magu wrth droed Moel y Ci yn edrych allan ar gopaon Eryri o'u cartref sy'n rhannol gyfrifol am ennyn rhyw awch am antur?
Anogwyd y tri ohonynt, Osian Curig, Morus Ifan a Gwenlli Elen, gan eu rhieni i ymwneud a phob math o weithgareddau awyr agored - cerdded, nofio, beicio, gwersylla, canŵio a rhwyfo. Cawsant gymaint o fwynhad wrth flasu'r gwahanol weithgareddau oedd ar stepan eu draws, fel petai.
Wrth iddynt fynd yn hyn mae'r awch am antur wedi amlygu ei hun fwy fwy. Caiacio dŵr gwyllt ydy prif ddileit Osian erbyn hyn. Mae wedi cael digon o gyfle i fynd lawr afon Ogwen, Lledr a'r Conwy a gweithio yng Nghanolfan Dŵr Tryweryn. Bydd yn treulio'i benwythnosau, tra'n astudio yn Glasgow, efo clwb caiaco'r coleg, ynghanol unigeddau'r Alban ac yn cael yr hwyl rhyfedda.
Eleni penderfynodd wneud cais i fynd ar antur arbennig efo **B.U.K.E.***(British Universities Kayaking Expedition)*. Pob dwy flynedd, dewisir mannau anghysbell yn y byd i ymweld a nhw a darganfod afonydd i'w tramwyo. Bu Osian yn llwyddiannus a dewiswyd o yn un o chwech i fynd i Sierra de los Cuchumatanes yn Guatemala yn Ne America am chwech wythnos. Teimlai falchder arbennig gan mai fo oedd y Cymro Cymraeg cyntaf erioed i gael arwain criw y **B.U.K.E.**
Gellwch fentro ei fod wedi cael pob math o brofiadau ar y daith. Digon i godi gwallt eich pen ar brydiau!







Mae Morus, ei frawd , wedi datblygu hoffter o ddringo creigiau. Mae yntau wedi bwrw ei brentisiaeth yn Eryri, yn dringo yn Nyffryn Ogwen a Dyffryn Peris. Bydd o a'i ffrindiau yn cael gwefr dringo ar Ynys Lawd, Y Gogarth ac i ławr yn Sir Benfro. Mae Gogledd Lloegr yn ei ddenu yn ystod ei amser yn y coleg yn Salford.
Ychydig yn ôl llwyddodd i gwblhau dringfa hynod o beryglus ar Clogwyn Du'r Arddu. Yn ôl a ddeallwn fo oedd yr ieuengaf a'r unig Gymro i gyflawni'r gamp.
Ymddangosodd erthygl amdano yng nghylchgrawn ***Summit***- a llun ohono ar y clawr.

Roedden ni, ei nain a'i daid, yn ymfalchio wrth ddarllen sylwadau a ysgrifennodd yn ddiweddar ***"Mae effaith a dylanwad fy anturiaethau dringo yn brofiad ehangach na phrofiad corfforol yn unig, maent yn brofiad ysbrydol sy'n tanio'r dychymyg ac yn fy llenwi gydag ymdeimlad o ddealltwriaeth a rhyddid."***



MORUS



**YR OLAF O'R WYRION**



GWENLLI

Cerdded ydy un o hoff bleserau Gwenlli, eu chwaer.
Mae hi'n adnabod ei hardal fel cefn ei llaw bellach.
Weithiau aiff i fyny'r llechweddau yng nghwmni ffrindiau, neu'r teulu - dro arall efo'r ci - ac ambell waith ar ei phen ei hun.
Yr haf yma bu'n gweithio mewn gwersyll i blant yn Canada, yn nhalaith Quebec.
Roedd yn ei helfen yno'n perswadio plant oed cynradd i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau awyr agored gan obeithio y buasent yn teimlo'r un wefr a brofodd hithau wrth ddechrau gweithgaredd arbennig.

*Ann a Gareth Roberts.*



## EGLWYS MYNYDD-BACH TREBOETH

Mae'r capel hwn yn enwog i'r rhan fwyaf gan fod Daniel James, neu Gwyrosydd, awdur Calon Lân wedi ei gladdu yno. Mae'r achos yn un o'r rhai hynaf yn hanes anghydffurfiaeth, yn mynd yn ôl i 1640 pryd roedd pobl yn cyfarfod i gyd-addoli yn ffermydd Cilfwnwr a Thirdwncyn, Llangyfelach. Erbyn hyn mae'r capel yn ganolfan gelfyddydol a diwylliannol.

Wrth wylio Dechrau Canu Dechrau Canmol, bydd ambell eitem yn dod o'r capel a'r ysgrifen ar y sgrîn ydy Capel Mynydd-bach, Treboeth a dyna pam rwyf yn sôn am y lle gan fod sylw i Dreboeth wedi bod yn ddiweddar yn dilyn marwolaeth Dewi 'Pws' Morris oedd yn hanu o'r pentref.

Bum yn mynychu'r capel o 1943 i 1950 gan mae fy nhad oedd gweinidog y capel a hwn ydy'r capel cyntaf mae gen atgofion amdano. Yn rhyfedd nid oes gennyf llawer o atgofion o fynd i'r capel a'r ysgol Sul na chyfarfodydd eraill ond rwy'n cofio'n iawn ein bod yn pasio rhyw ychydig lathenni o ddrws ffrynt y dafarn "***The Welcome Inn***".



**CILFWNWR**

Roedd y capel yn union ar draws y comin o'n tŷ ni lle roeddem yn treulio oriau yn chwarae pel-droed a chriced ac mae'r comin yn dal yno er fod miloedd o dai wedi eu codi o gwmpas yr ardal oedd yn bur wledig adeg hynny.

Roedd ein tŷ, neu'r mans yn weddol newydd ac mae'r llun hwn yn weddol agos i sut rwy'n cofio'r lle, ar wahan mai lawnt oedd o flaen ein ty.

Yr enw ar ein cartef oedd Cilfwnwr.

*Rhys Morgan Llwyd*




# MWYNHAU'R CYFFRO, Y CYNNWRF A'R CROESO.

Bu canmol garw i Eisteddfod Genedlaethol Rhondda a Cynon Taf a gynhaliwyd ym Mhontypridd eleni. Profodd sawl un o aelodau Emaus gynhesrwydd y croeso yn ystod yr wythnos.
Un a wnaeth argraff ar y beirniaid cerdd oedd Lisa, merch Sian Eleri a Tomos Morgan. Daeth yn drydydd yng nghystadleuath y Rhuban Glas Offerynnol yn rhoi datganiad ar y piano.
Roedd chwaer Lisa, Gwenno, yn brysur ar y maes. Bu'n trefnu achlysur arbennig i ddathlu bywyd a gwaith y cerddor amryddawn Morfydd Llwyn Owen a aned yn Nhrefforest ac a wnaeth gymaint o argraff yn ystod ei hoes fer. Llwyddodd i gyfansoddi peth wmbredd o ddarnau ar gyfer cerddorfa, corws, heb son am lu o alawon a threfniannau caneuon gwerin - i gyd o'r safon uchaf. Roedd hi'n noson i'w thrysori yn ol rhai o'n haelodau oedd yn bresennol. Tybed beth a fuasai gan Dyfnallt Morgan, un o selogion Pendref, i ddweud am lwyddiannau ei wyresau Gwenno a Lisa yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf ac yntau yn enedigol o Ferthyr? Derbyniodd Dyfnallt sylw haeddiannol yn y Babell Len. Yno bu trafod ar ei bryddest bwerus **Y Llen**, a ddaeth yn ail yn Eisteddfod y Rhyl 1953, lle roedd yn son am dranc sydyn y Gymraeg a'i diwylliant mewn rhan arbennig o Gymru.



LISA MORGAN

Gwelwyd nifer o aelodau Emaus ar lwyfan y brifwył yn rhan o gor Encor a lwyddodd i ennill yr ail wobr dan arweiniad Grace Pritchard.
Bu Gethin Elis, mab Lowri Elis, yn brysur yn ystod yr wythnos yn perfformio efo sawl grwp a chefnogi eraill fel Gruff Lynch yn y gigiau.

Braf oedd clywed Carwyn Eckley, enillydd y gadair,yn cydnabod ei werthfawrogiad o'i athrawes Gymraeg yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, sef Eleri Owen, merch Eirlys Owen a'r diweddar O.G.Owen. Soniodd Casi, ein gweinidog, iddi fwynhau un o'r cyngherddau a drefnwyd yn ystod yr wythnos a dyma ei hargraffiadau o'r cyngerdd.

## *CYNGERDD I'W GOFIO*

***Eleni mae'n ganmlwyddiant marw'r cyfansoddwr Ffrengig, Gabriel Fauré. O ran y cysylltiad Cymreig, gwyddom bod Fauré wedi treulio cyfnodau'n ymweld â Chastell Llandŵ ym Mro Morgannwg yn ystod ei flynyddoedd olaf, yng nghwmni Henry Ebsworths a'i ferch, Elsie Swinton. I nodi'r canmlwyddiant, trefnwyd cyngerdd ar nos Iau'r Eisteddfod ym Mhontypridd yng nghwmni wyth o gyn-enillwyr prif gystadlaethau lleisiol yr Eisteddfod yn awyrgylch arbennig Y Muni, Pontypridd (*** Canolfan celfyddydau ***) i gyflwyno Requiem enwog Fauré*** (cyfieithiad Stephen J Williams)

***Tra bod rhai cyfansoddwyr eraill wrth ymdrin â phwnc marwolaeth yn canolbwyntio ar erchylldra marwolaeth a'r golled enbyd sy'n dod yn ei sgil, cyfansoddodd Fauré gerddoriaeth sy'n mynd i wraidd ystyr y gair 'Requiem' sef 'gorffwys', a chawn ganddo gerddoriaeth sy'n heddychlon ac yn gysurlon ei naws. Fel rhan o raglen y noson, cafwyd perfformiadau o ddarnau eraill gan Fauré a hynny'n rhagarweiniad i'r Requiem ei hun.***
***Y cantorion oedd: Meinir Wyn Roberts, Lisa Dafydd, Eleri Owen Edwards, Ceri Haf Roberts, Dafydd Wyn Jones, Steffan Prys Roberts, Aled Edwards a John Ieuan Jones gyda chyfeiliant pumawd llinynnol Cerddorfa Ieuenctid Cenedlaethol Cymru a'r cyfan dan arweiniad meistrolgar Nia Llewelyn Jones sydd, fel y gwyddoch, yn un o blant yr eglwys hon ac yn ferch i David a Delyth Llewelyn Jones, Cricieth. Hyfryd oedd dianc am ychydig o'r glaw ac o fwrlwm Maes yr Eisteddfod i fwynhau cyngerdd o gerddoriaeth tangnefeddus o'r radd flaenaf.***



NIA LLEWELYN JONES Â'R GERDDORFA

Y BREGETH

Roedd bore Sul, Medi 15,yn wlyb a gwyntog, ond diolch i Wes, roedd hi'n gynnes a chlyd yn Emaus pan gawsom y cyfle i groesawu'r Parch. John Gwilym Jones atom a chael cwmni Nest, ei ferch a'i gŵr Mark.



**Tybed ydy'r gerdd yma a luniwyd gan John - sy'n efelychiad o gerdd Saesneg - yn atgoffa'r gynulleidfa yn Emaus a'r rhai ar zoom, o'i bregeth y bore hwnnw?**

## PAN GAIFF DYN EI FESUR

Pan gaiff dyn ei fesur, gofynnir gan Dduw
Nid sut y gwnaeth farw, ond sut y gwnaeth fyw

Nid faint a wnaeth ennill, ond faint fyddai'n rhoi,
Ac a fyddai yn aros pan oedd eraill yn ffoi.

Nid beth oedd ei gred ond beth fyddai'n ei wneud,
A faint oedd e'n teimlo, nid faint allai'i ddweud.

Nid uchder ei feddwl, ond dyfnder ei ras
A'i gymeriad tu fewn, nid ei wên y tu fas.

Nid faint oedd y deyrnged gan bawb i hen ffrind
Ond faint deimlodd golled ar ôl iddo fynd.

Mae'n dda dweud na allai fyth golli'r un cwrdd,
Ond gwell dweud na throai 'run truan i ffwrdd,


Ac y bu yn oleuni mewn ambell i nos,
A throchi ei hun i ddwyn cyfaill o'r ffos.

Ie, dyna y diwedd y modd y gwêl Duw
Pa enaid sy'n farw a pha enaid sy'n fyw.


*John Gwilym Jones*



*Gwelwyd ein hysgrifennydd, Gareth, yn ei wisg wen yn yr Orsedd - ac yn rhoi darlith yn y pentre Gwyddoniaeth ar gyfraniad*
Donald Watts Davies






Y GOFEB AR WAL LLYFRGELL TREORCI

# DONALD

Donald pwy, meddech chi? Donald o Dreorci, Donald arbennig iawn. Hebddo, go brin y byddech yn gallu darllen y Negesydd hwn o gwbl! Prif gamp Donald Watts Davies oedd darganfod sut i anfon negeseuon ar y we, negeseuon sydd yn mynd o gyfrifiadur i gyfrifiadur, neu o'ch ffôn symudol i ffôn symudol arall.

Ganed Donald yn Nhreorci, Cwm Rhondda, yn 1924. Treuliodd ei yrfa yn y Labordy Ffisegol Cenedlaethol yn Llundain, sefydliad lled gyfrinachol, ac yno y defnyddiodd fathemateg, ffiseg a pheirianneg i gyrraedd ei nod. Bu farw yn 2000. Yn 2013 dadorchuddiwyd cofeb iddo ar wal llyfrgell Treorci, symbol o gyfraniad y Cymro arbennig hwn i'n bywydau bob dydd heddiw.

Cefais gyfle i sôn am Donald yn yr Eisteddfod ym Mhontypridd, nepell o Dreorci, wrth gwrs. Yn y drafodaeth gofynnwyd i mi pa Gymro, ar wahân i Donald, ydy fy hoff fathemategydd. Cwestiwn anodd, ond dewisais William Jones (1674-1749) o Ynys Môn a gyflwynodd y symbol π (pai). Er mawr syndod i mi daeth llais gan hogyn bach yn y gynulleidfa yn dweud, gyda balchder, ei fod yn gallu cofio deg digid cyntaf pai. Waw!! Mentrais ofyn iddo eu hadrodd. Yn gwbl hyderus, daeth y rhifau 3 1 4 1 5 9 2 6 5 3 yn glir ac yn gywir. Roedd yr hogyn yn wên o glust i glust a'r gynulleidfa'n curo dwylo i gydnabod ei gamp a rhyfeddu at ei frwdfrydedd.

Byddai Donald wedi bod wrth ei fodd ac mae'n sicr yn haeddu ei le yn fy llyfr **Cyfri'n Cewri.**

*Gareth Ffowc*

**DECHRAU AR EI GYRFA.**

Ein dymuniadau gorau i Medi,merch Sian Eleri a Tomos Morgan sydd newydd gwblhau gradd meistr yng Nghaerdydd ac yn dechrau ei swydd gyntaf fel *"para legal"* i gwmni o gyfreithwyr rhyngwladol - D.A.C Beachcroft yng nghyffiniau Casnewydd.

**PROFIADAU NEWYDD**

------------

Prifysgol Caerdydd ydy dewis Lisa Morgan, chwaer Medi Dymuniadau gorau

------------

Bydd Morgan, mab Carol a Dylan, yn symud i Brifysgol Bangor i ddilyn cwrs i gymhwyso fel athro, ar ol graddio yng Nghaerdydd yr haf yma. Pob dymuniad da

------------

Dymuniadau gorau hefyd i Aron ar ddechrau ei gyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle bydd yn astudio Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Cofion gorau ato ar ddechrau cyfnod newydd cyffrous yn ei hanes

*Llongyfarchiadau i Owain Gwynn, wyr Gwyn a Branwen Jarvis ar ei wobrwyo yn Fyfyriwr y Flwyddyn Ysgol Tryfan yn dilyn ei ganlyniadau gwych yn arholiad TGAU ynghyd ag ennill Anrhydedd mewn arholiad Mathemateg ychwanegol.*

Dymunwn y gorau iddo wrth ddechrau ei astudiaethau ar gyfer Lefel A.



MYFYRIWR Y FLWYDDYN
YSGOL TRYFAN

## DYMUNIADAU DA

*Dymunwn yn dda i Gwyn Eirug sydd newydd ymddeol o'i swydd fel cyfreithiwr.*

# HANES FY MHLENTYNDOD

Fe gefais i blentyndod hapus dros ben ac un breintiedig ac arbennig iawn ym Mhenceiliogi ger Llwynhendy, rhyw dair milltir o Lanelli. Y tri peth pwysig yn y teulu oedd y capel, cerddoriaeth a rygbi.



Roeddwn yn mynychu Capel Bedyddwyr Soar Llwynhendy (800 o aelodau) tair gwaith y Sul a hefyd yn yr wythnos i'r cwrdd diwylliannol, y Band of Hope a'r Ysgol Gân. Fy nhad oedd yn arwain y côr a mam yn cyfeilio ar y piano (neu'r organ), felly gan fy mod yn unig blentyn roeddwn yn y côr hŷn o ddeuddeg ymlaen yn ogystal a bod yn y côr plant.

Roedd fy nhad yn ganwr baritone adnabyddus ac yn canu mewn cyngherddau yn wythnosol yn enwedig ar benwythnosau. Felly roeddwn i wedi fy magu yn swn oratorios, anthemau, caneuon Cymraeg fel ***'Y Dymestl'*** a chaneuon Seisnig e.e.'***Bless this House'*** ayb. Does dim rhyfedd mai canu aria allan o oratorio fyddwn i, e.e.***'Honour and arms'*** allan o **'Samson'** pan fyddai rhywun yn dod acw yn hytrach na ***'Dacw mam yn dwad'***!

Roedd y côr (*120 o aelodau*) yn perfformio oratorio pob mis Mawrth gyda cherddorfa ac artistiaid proffesiynol. Roeddem hefyd yn ymarfer anthemau ar gyfer Cyrddau Mawr a dwy Gymanfa leol. Byddai ymarferion y côr ar ôl oedfa nos Sul ac ar ôl y Band of Hope am 7.30pm ar nos Fercher. Cyn pennu dyddiau y cyngerdd ym mis Mawrth roedd yn rhaid gwirio pa ddydd Sadwrn roedd Cymru yn chwarae gem rygbi ryng-wladol yng nghae St Helens, Abertawe er mwyn osgoi y Sadwrn hwnnw. Ar ddiwrnod y cyngerdd byddai'r merched i gyd ar y llwyfan mewn gwisgoedd gwyn a'r dynion yn y galeri nesaf i'r llwyfan.

Roedd cyngerdd y plant ym mis Rhagfyr. Fy nhad oedd yn arwain y côr plant hefyd a byddem fel arfer yn perfformio cantata megis **Ymgom yr Ada**r (*Joseph Parry*) ac eitemau unigol wedyn. Rwy'n cofio rhuthro allan o ymarfer brynhawn y cyngerdd i weld ail hanner gem Cymru yn erbyn Seland Newydd yn 1953 mewn tŷ cyfagos. Ychydig o bobl oedd yn berchen teledu bryd hynny ac roedd yr ystafell dan ei sang. Fe enillodd Cymru a phawb wedi cyffroi.

Roeddwn i ymhlith y cannoedd oedd yn mynd i barc y Strade i gefnogi Llanelli (*Scarlets*) pan oedd gem gartref. Ar wył San Steffan bob blwyddyn roedd Cymanfa'r ardal, bore, prynhawn a'r hwyr. Hefyd roedd gem rygbi bwysig yn y Strade yn y prynhawn, Llanelli yn erbyn Cymru Llundain. Felly fe fyddwn i a rhai eraill o'r côr, dynion yn enwedig, yn mynd i'r Gymanfa yn y bore, i'r rygbi yn y prynhawn ac i'r Gymanfa gyda'r nos. Roedd na dipyn o ddweud y drefn gan rai o'r bobl hŷn yn enwedig y gwragedd am nad oeddem yno yn y prynhawn ac felly ddim yn medru canu'r anthem.

Mae gennyf atgofion lu o'r cyngherddau, roedd hi'n amser difyr a minnau'n mwynhau pob munud. Mae'n chwith meddwl nad oes côr na chyngerdd yno mwyach.

*Enid Griffiths.*

## CYNHADLEDD DDWYIEITHOG FLYNYDDOL CHWIORYDD CYMRU (*SENANA)*

Cynhaliwyd y gynhadledd yn ystod wythnos gyntaf mis Medi yng Ngholeg Trefeca, Powys. Roedd yn achlysur hanesyddol, nid yn unig oherwydd dyma'r tro cyntaf inni ymweld â Threfeca ond hefyd oherwydd bod dwy chwaer yn rhannu'r Llywyddiaeth, y Parch. Mischa Pederson a Mrs Elsa Flett, Bontnewydd-ar-Wy. Thema'r gynhadledd oedd Pethau Newydd yn Datblygu o Hen Lwybrau, sef parhad o thema'r cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Er bod y nifer o gynadleddwyr yn llai nag a fu, roedd croeso cynnes, cartrefol Trefeca ynghyd ag arddull hamddenol, diymhongar y ddwy lywyddes yn creu awyrgylch arbennig, llawn hwyl a chwerthin yn ogystal â dwyster a difrifoldeb.

Yn yr astudiaethau Beiblaidd arweiniodd Mischa ni at hanes temtiad Iesu yn yr anialwch yn gyntaf, gan gynnig esboniad ohono fel y Meseia yn cael ei rhyddhau o ofynion corfforol, o ddisgwyliadau'r dorf ac o afael grym ac awdurdod dynol. Yna gofynnodd i ni edrych ar ddau hanesyn arall yng ngoleuni'r darlleniad cyntaf. Ar fore Dydd Mercher, dewiswyd Iesu yn sgwrsio gyda'r wraig o Samaria ac ar fore Dydd Iau, Iesu yn gyrru allan ei ddisgyblion i genhadu *"fel ŵyn ymysg bleiddiaid."* Heriodd ni i ddarganfod yr un rhyddid a brofodd Iesu a'i ddisgyblion yn ein cenhadaeth ni heddiw. Fel sy'n arferol daeth gweithwraig genhadol o BMS i rannu ei phrofiad gyda ni. Eleni Mrs Jackie Chilvers oedd y gwestai. Er ei bod erbyn hyn yn gweithio fel Arweinydd ar Ddiogelu i BMS yn y DU, bu Jackie allan yn Chad am nifer o flynyddoedd. Cawsom yr hanes diweddaraf am Ysbyty enwog Guinebor 2 sy'n darparu gwasanaethau iechyd i dros 2,000 o gleifion bob blwyddyn yn ogystal â 14,000 o gleifion allanol. Nid yn unig hynny ond mae'r gwasanaeth mamolaeth yn delio gyda 1,800 o enedigaethau'r flwyddyn. Hyn i gyd mewn gwlad dlawd sydd yn dioddef o effeithiau newid hinsawdd a rhyfeloedd cyfagos. Er hyn i gyd, mae'r Ysbyty yn parhau i wasanaethu'r gymuned o'i chwmpas ac yn uchel ei pharch gan bawb sy'n cael gofal ynddi.

Ar nos Fercher cynhaliwyd oedfa Gymun dan ofal y Parch Ifor Williams, Llanfair-ym-muallt. Roedd yn oedfa syml ond ystyrlon, gydag Ifor yn ein harwain yn wylaidd at y groes, i fyfyrio ar aberth Crist cyn rhannu'r elfennau gyda'n gilydd. Defnyddiwyd llestri cymun y Coleg ei hun a braf meddwl am y cenedlaethau o gredinwyr oedd wedi dilyn yr un ddefod o'n blaenau o dan yr un to.

Yn y cyfarfod agored pnawn Dydd Mercher cytunwyd bod y newid lleoliad anorfod o'r Brifysgol yn Llambed i Goleg Trefeca wedi bod yn llwyddiant ac roedd pawb yn awyddus i ddychwelyd flwyddyn nesaf. Mynegwyd diolch i Misha ac Elsa am eu harweiniad doeth a diffwdan ac i Suzanne Roberts, yr ysgrifennydd, ac Hazel Williams-Jones, y trysorydd, am eu gwaith caled a diflino hwythau tu ôl i'r llenni. Ar ôl cinio Dydd Iau, roedd yn amser ffarwelio a Threfeca a phawb yn troi am adref wedi eu hysbrydoli a'u calonogi o'r newydd. Diolch i Dduw am y fraint o fod yno!

***Eleri Lloyd Jones***

### CYNHADLEDD FLYNYDDOL DDWYIEITHOG SENANA CYMRU



Yn wahanol i'r arfer, cynhaliwyd y gynhadledd eleni yn Nhrefeca ac roedd nifer dda yn bresennol. Cafwyd bendith wrth astudio, trafod a gweddio gyda'i gilydd. Diolch i Eleri am gynrychioli Arfon a Mon. Roeddwn i'n methu bod yn bresennol y tro hwn oherwydd gwahanol amgylchiadau ond derbyniais gyfarchion y gynhadledd yn y cerdyn hyfryd welir yma.
Bydd cynhadledd 2025 yn yr un lle y flwyddyn nesaf ac rwyn mawr obeithio bod yn bresennol gan fod yr hanesion difyr yn annog rhywun i brofi'r fendith o fwynhau cwmni ffrindiau o bob rhan o Gymru.

*- Siân Arwel*

## Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru

Daeth nifer dda ynghyd i festri capel y Tabernacl, Llannerch-y-medd ar Ddydd Mercher, Medi 11eg i weld y Parch Deb Stammers, Caergybi, yn esgyn i'r Llywyddiaeth. Thema'r diwrnod oedd ***"Fel coeden a blannwyd ar lan dyfroedd."*** 'Roedd hanner cyntaf cyfarfod y prynhawn yn nwylo medrus y Parch Siân Elin Tomos, Castell Newydd Emlyn, gyda Natalie Morgan, Aberteifi, wrth yr organ. Mae Natalie hefyd yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth a braf gweld cynifer o'n gweinidogion newydd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Mudiad. Cafwyd adroddiadau gan yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd cyn i Siân ddarllen adroddiad Mair Roberts ar Gartref Glyn Nest a chyfarchion gan Lywyddion y Senana, y Parch Misha Pedersen ac Elsa Harflett. Cyflwynwyd yr Is-lywydd newydd inni hefyd, sef Mrs Gret Evans o Sir Benfro.

Yna daeth yr amser i urddo Debs yn swyddogol wrth iddi arwyddo Beibl y Llywydd a derbyn tlws Nanette gan Siân. Traddododd y Llywydd newydd araith rymus a thwymgalon ar yr adnodau canlynol o lyfr Jeremeia: ***"Bendigedig yw'r sawl sy'n hyderu yn yr Arglwydd, a'r Arglwydd yn hyder iddo. Y mae fel pren a blannwyd ar lan dyfroedd, yn gwthio'i wreiddiau i'r afon, heb ofni gwres pan ddaw, a'i ddail yn ir; ar dymor sych ni phrydera, ac ni phaid â ffrwytho"*** Adroddodd ychydig o'i hanes ac fel yr oedd ei ffydd a'i hymddiriedaeth yn Nuw wedi ei chynorthwyo pan oedd bywyd yn anodd. Cawsom ninnau ein hannog i wreiddio ein bywydau yn ddwfn yn yr Arglwydd Iesu fel y gallwn wrthsefyll sychder yr oes bresennol a ffrwytho'n helaeth yn y dyfodol. Roedd yn arbennig o bwerus o ystyried mai ail iaith yw'r Gymraeg i Debs!

Ar ôl y cyfarfod cafwyd te blasus yng Nghaffi'r Stesion yng nghanol y pentref. Yna daethom ynghyd unwaith eto ar gyfer cyfarfod yr hwyr. Y tro hwn roedd Debs yn rhoi cyfweliad byr i ddwy arweinydd ifanc arall ar y thema ***"Ymddiried yn Nuw"*** sef, Rachel Radbourne o Eglwys y Goleudy, Llangefni, a Hannah Smethurst, o Gaersalem, Caernarfon. Fel Debs mae Rachel wedi dysgu Cymraeg a hynny ar ôl iddi hi a'i gwr symud i Sir Fôn i blannu eglwys newydd, ddwyieithog yno. Mae Hannah, wrth gwrs, yn gyfarwydd i ni yn Emaus ers tro ond mae hi ar fin dechrau ar weinidogaeth newydd arloesol yn ardal Caernarfon. Unwaith eto 'roedd yn braf clywed tystiolaeth merched ifanc yn ymrwymo i waith yr Efengyl yn ein plith. Roedd y diwrnod drwyddo draw yn galondid ac yn fendith i bawb oedd yno. Dymunwn bob bendith a llwyddiant i Debs yn ystod blwyddyn ei llywyddiaeth!

**Dyma lun o'r rhai gymrodd ran yn oedfa'r hwyr gyda Hannah a Rachel bob ochr i Debs**

*( yn gwisgo tlws y llywydd o gwmpas ei gwddf ).*

***Eleri Lloyd Jones***



## LLONGYFARCHIADAU a DYMUNIADAU DA

Llongyfarchiadau i Morgan Tecwyn ar ei lwyddiant yn ei arholiadau TGAU a phob dymuniad da iddo yn y chweched dosbarth yn Ysgol Tryfan. Mae hefyd yn teithio i Ysgol Dyffryn Ogwen yn achlsurol i astudio Mathemateg Bellach ar gyfer Lefel A.


Yn y llun gwelir Morgan yn derbyn Ysgoloriaeth Keith Price, sef gwobr a roddir yn flynyddol er cof am athro Ffiseg uchel ei barch yn Ysgol Tryfan. Fe'i rhoddir i'r disgybl sydd wedi derbyn y marciau cyfunol uchaf yn arholiadau TGAU y tri phwnc gwyddonol. Mae'n derbyn y wobr gan un o gyn-ddisgyblion yr ysgol sef y cerddor adnabyddus Owain Gruffudd Roberts, a Mrs Nia Griffiths Jones (Pennaeth Adran Cemeg Ysgol Tryfan).

Da iawn Morgan, a dalier ati!




Dymuniadau gorau hefyd i'w frawd, Aron Tomos ar ddechrau ei gyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth lle bydd yn astudio Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol.

Cofion gorau iddo ar ddechrau cyfnod newydd cyffrous yn ei hanes.




CYLCH DARLLEN EMAUS

**Bydd y cylch darllen nesaf yn cael ei gynnal yn Emaus ddydd Gwener, Hydref 4 am 2.00 o"r gloch. Y llyfr i'w drafod yw**

*Everything is Everything*

**gan Clive Myrie. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.**

## DATHLU MASNACH DEG



Fe wnaethom ni ym Mangor, ddathlu **Masnach Deg** yn ôl ein harfer ym mis Mawrth, ond yn swyddogol, roedd pythefnos **Masnach Deg** eleni wedi ei symud i fis Medi, er mwyn dathlu 30 mlynedd o Fasnach Deg. Bu **Traidcraft** wrth gwrs yn hybu ffyrdd gwahanol o fasnachu mwy teg a moesol am 15 mlynedd cyn hyn. Yn 1994, cafodd **Traidcraft Exchange** (**Transform Trade** rwan) a nifer o fudiadau tebyg, y syniad o gael marc arbennig i ddangos fod nwyddau wedi eu masnachu'n deg, sef fod y cynhyrchwyr yn cael pris teg, y gweithwyr yn cael eu talu'n deg, a'u cymuned yn cael elwa o'r **"Fairtrade Premium"** i'w wario fel y dymunent. Yn ystod y 30 mlynedd, tyfodd y mudiad, ac mae'n dal i fynd o nerth i nerth.

Yn ôl un arolwg, mae 93% o siopwyr yn y DU yn adnabod ac yn parchu'r marc. Mae 10 miliwn o bobl ar draws Affrica, Asia ac America Ladin, mewn 70 o wledydd wedi elwa, ac yn y wlad yma mae tua 7000 o grŵpiau a sefydliadau wedi ymwneud â Masnach Deg, gan gynnwys 2500 o ysgolion a 4000 o eglwysi a chapeli.

Mae statws Bangor fel **Dinas Masnach Deg** newydd gael ei adnewyddu, yn rhannol oherwydd ein gweithgaredd ni yn Emaus.

Er na fuom yn dathlu yn ein bore coffi, cafodd pawb fwynhau te a choffi Masnach Deg, a chael bladu'r bisgedi newydd Masnach Deg sydd ar gael ar ein stondin. Cynhelir y bore coffi nesaf fore Sadwrn Hydref 5ed o 10 - 12 o'r gloch. Mae nifer o eitemau newydd wedi cyrraedd y siop, ac fe ddaw mwy yn y misoedd nesaf.

Diolch am bob cefnogaeth.

*Catrin Evans*

## CYFARCHION I'R CLEIFION

Rydym yn cofio yn ein gweddïau ac yn anfon ein cyfarchion at aelodau a ffrindiau Emaus y mis yma:

Braf clywed bod ***Gwilym Williams, Fferm Maes Mawr***, wedi gadael Ysbyty Gwynedd.

***Ann Roberts*** a ***Mavis Jones*** sydd wedi ymweld â'r ysbyty i gael triniaeth yn ddiweddar

***Richard Gwynedd Roberts*** a ***Iola Griffiths***, y ddau yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, Y Felinheli

***Enid Owen*** yn Merton Place, Bae Colwyn

***Ann Morgan*** yn Fairways Newydd, Llanfairpwll

***Olwen Davies*** ac ***Eirlys Owen***, y ddwy yng Nghartref Gofal Plas Garnedd, Llanfairpwll

***Gwyneth Williams*** yn Cae Garnedd

***Alun*** a ***Jean Morris***, Rhodfa Belmont

Mae'n meddyliau a'n gweddïau hefyd gyda phawb o'n haelodau a'u teuluoedd sy'n anhwylus neu'n mynd drwy driniaeth ar hyn o bryd.

## COFIO GRESFFORDD


COFEB GLOWYR GRESFFORDD

Medi 22, 1934 digwyddodd trychineb cloddio mwya'r Deyrnas Unedig yn Gresffordd, y pwll glo ger Wrecsam. Bu farw 266 o ddynion yn y ddamchwa, pob dyn gyda ei gyflog yn eu pocedi. Yr roedd mwy o bobl eisiau gweithio y noson honno oherwydd 'roedd Wrecsam yn chwarae gartref y bore Sadwrn hwnnw ac felly 'roedd pobl wedi newid i wneud shifft ddwbl cyn y gêm beldroed. Yr oedd yn anghyfreithlon i wneud shift dwbl ar y pryd. Ond doedd y perchnogion ddim yn malio. Hefyd fe wnaeth y perchnogion wrthod rhoi taliad arall i deuluoedd y glowyr gan ddweud bod y glowyr wedi cael eu talu unwaith yn barod. Mae cyrff 255 o'r glowyr hynny (a'r pres yn eu pocedi) yn dal o dan y ddaear.

90 mlynedd yn ddiweddarach ysgrifennwyd opera arbennig i gofio am y rhai fu farw ac am yr effaith ar y teuluoedd a'r gymuned. Jon Guy wnaeth gyfansoddi'r opera a Grahame Davis wnaeth sgwennu'r geiriau. Enw'r opera oedd **"Gresffordd i'r Goleuni Nawr"** a cafodd ei pherfformio am y tro cyntaf yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy Medi 11, 2024.



Cefais y cyfle o chwarae'r trwmped a'r offerynau taro fel rhan o'r gerddorfa. Brawd Jon Guy, sef Rob oedd yn arwain y gerddorfa. Cefais gyfle gan Rob hefyd i arwain y gerddorfa mewn gweithdy Sinffonia Newydd. 'Doeddwn i erioed wedi bod yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy cyn y diwrnod mawr.



Roedd yr awyrgylch yn anhygoel efo llawer o luniau o'r glowyr a'r ardal ar sgriniau mawr. Roedd plant wedi dylunio lampau fel lampiau'r glowyr ar y silffoedd a gwneud gwaith celf o gwmpas yr eglwys. Roedd un perfformiad am 5.30 ac un am 8 pm. Roedd yr un 8 pm yn well am ei bod hi'n dywyll ac roedd golau coch ar nenfwd yr eglwys mewn rhai darnau. Yr oeddwn yn chwarae trwmped, cadwyni a symbalau. Fy hoff ddarn yn yr opera oedd cael codi a gollwng y cadwyni mawr trwm yn y darn cyntaf yn yr opera. Roedd hynny yn adlewyrchu'r glowyr yn mynd lawr yn y gawell am y tro olaf un. Yr oeddwn i'n meddwl am drip Blwyddyn 6 Ysgol Llanfairwpll i Big Pit wrth wneud hyn. Roedd pawb ohonom ni yn y gerddorfa yn gwisgo hetiau glowyr. Roedd perthnasau y glowyr yn y gynulleidfa a llawer o bobl yn crio ar ôl y perfformiad. Yr oedd yn brofiad bythgofiadwy i chwarae gyda cherddorion proffesiynol. Ar ôl i'r opera orffen roedd y gynulleidfa a ni yn canu **'Gresford Hymn'.** Os ydych chi eisiau clywed mwy am yr hanes ac ychydig o'r perfformiad gallwch wrando ar BBC Sounds ***' Gresffordd: 90 Mlynedd'*** Radio Cymru.

Alys

# CORNEL POSAU GARETH

**ATEB I BOS AWST/MEDI 2024**


**POS YR EISTEDDFOD**

**Mae 19 yn rhannu i 171**

**POS HYDREF 2024**

## POS Y MORFARCH

*Llongyfarchiadau i Eurgain Haf, enillydd y Fedal Ryddiaith eleni.*




*Mae tudalennau ei nofel yn cael eu rhifo o 9 i 148.*
*Sawl '8' sy'n cael eu defnyddio wrth rifo'r tudalennau yn y llyfr i gyd?*

**BYDD YR ATEB YN RHIFYN TACHWEDD.**

MASNACH DEG

Cynhelir y bore coffi a stondin nwyddauMasnach Deg nesaf bore Sadwrn Hydref 5ed

o 10 - 12 o'r gloch.

*Mae nifer o eitemau newydd wedi cyrraedd, ac fe ddaw mwy yn y misoedd nesaf.*

***Diolch am bob cefnogaeth.***

*Catrin*

## Y NEGESYDD YN EICH LLAW

Os yr hoffech gasglu copi papur o'r Negesydd o'r cyntedd, yn lle ei ddarllen ar ebost bob mis *(o Dachwedd ymlaen)*, wnewch chi roi eich enw ar restr yn y cyntedd os gwelwch yn dda.

*Noder: Bydd y rhai ohonoch sy'n derbyn deunydd drwy'r drws yn wythnosol yn parhau i dderbyn y Negesydd drwy'r drws fel arfer.*

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD – CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD – ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243